



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17 Ionawr 2021

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Wrth i ni barhau â chyfnod clo arall pan mae cymaint o sefydliadau ar gau a'r mwyafrif o weithgareddau arferol wedi'u gwahardd, beth mae pobl wedi bod yn ei wneud? Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau, mae yna rai gweithgareddau wedi dod yn llawer mwy poblogaidd. Er enghraifft, mae'n debyg bod yna gynnydd amlwg wedi bod mewn pobl yn rhedeg fel ffordd o ymarfer corff (18% o bobl Cymru yn rhedeg yn ôl erthygl Golwg360), tra bod niferoedd y dysgwyr Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol y llynedd gyda phobl ar draws y byd yn mentro i ddysgu'r iaith trwy gyrsiau ar-lein. Tybed ydych chi wedi cychwyn rhyw arferiad newydd yn sgil cyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf? Boed chi wedi darganfod diddordebau newydd neu beidio, beth am ddefnyddio'r cyfnod fel cyfle i fynd ati i ddarllen y Beibl yn fwy cyson, ac o bosib i ymuno â Chwrs y Beibl fydd yn dechrau ar ZOOM nos Fawrth?

Mae'r cwrs wedi cael ei ysgrifennu gan Andrew Ollerton, un o'r rhai a sylfaenodd *Souled Out* yn ystod ei gyfnod yn gweithio yng Ngholeg y Bala, ac mae'n adnodd arbennig y mae nifer wedi cael bendith o'i ddilyn yn barod. Bwriad y cwrs yw ein helpu i ddeall sut mae gwahanol rannau'r Beibl yn ffitio hefo'i gilydd, a dangos i ni mor odidog yw'r hanes am Dduw yn caru ac yn achub trwy ei Fab, yr un stori fawr honno sydd i'w gweld o Genesis i Lyfr y Datguddiad. Os oes gennych diddordeb, mae'r manylion i gofrestru i'w cael ar y dudalen nesaf.

Yn ein gwasanaeth ddydd Sul, cawsom ein hatgoffa o ddisgrifiad Salm 1 o'r rhai sy'n cael eu 'hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.' (Salm 1:2) Gwyddom hyd yn oed heddiw fod nifer yn parhau i barchu'r Beibl fel llyfr pwysig yn hanesyddol, ond mae'r Cristion wrth ei fodd yn myfyrio ar eiriau'r Arglwydd oherwydd y cyswllt personol trwy Iesu Grist. Gallwn brofi'r Gair yn felys fel mêl trwy waith yr Ysbryd yn ein hargyhoeddi mai dyma'r ffordd y mae'r Duw tragwyddol yn siarad â ni. Ac yn ôl yr Apostol Paul, yr Ysgrythurau sanctaidd 'sydd yn abl i'w wneud yn ddoeth a'th ddwyn i iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist Iesu.' (2 Timotheus 3:15)

Mewn cyfnod pan mae cymaint o bethau yn ein byd yn teimlo'n ddryslud ac yn ddychrynlyd, beth am i ni droi yn weddigar at Dduw, a gofyn am ei gymorth er mwyn i ninnau fel y Salmydd brofi adfywiad trwy ei ofynion? (Salm 119:93)

Rhodri

## Cofion a Llongyfarchion

Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith. Erbyn hyn, mae Eirlys Owen (Llanefydd) yn cael gofal yn Ysbyty Rhuthun, fel ag y mae Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari. Anfonwn ein cofion at y ddwy ohonoch ac at bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddwch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Parhawn i gofio am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf, ac fe'ch cyflwynwn chwithau hefyd yn dyner i ofal yr Arglwydd gan weddio eich bod yn profi nerth a chysur a chariad Duw yn eich amgylchynu.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eirwen Bailey (Llansannan) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych chi angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

## Adnoddau

- **Os nad ydych chi defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwyllo'r oedfa a ddarllidir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych chi dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych chi dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru) ac ar wefan [www.holi-cymru.org](http://www.holi-cymru.org).

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (31<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.

## Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 17<sup>eg</sup>

- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno. Os na allwch ymuno bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled** (ar ZOOM)  
Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ymuno am sgwrs. (Cliciwch ar y llun 'Sgwrs Bore Sul Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] i ymuno.)

Llun – 18<sup>fed</sup>

- **Dewch at y Bwrdd** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr – Cyfres o 6 astudiaeth (Ionawr 18, 25; Chwefror 8, 22; Mawrth 8, 22) ar Salm 23. Arweinir gan weithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Croeso cynnes i bawb. Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu dealwch 0203 901 7895 i ymuno ar y ffôn. (Meeting ID: 832 4338 3071)

Mawrth – 19<sup>eg</sup>

- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr. Cofiwch bod angen cofrestru ymlaen llaw. Manylion llawn ar waelod y dudalen nesaf.

Sul – 24<sup>ain</sup>

- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] i ymuno.)

Llun – 25<sup>ain</sup>

- **Dewch at y Bwrdd** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr – Cyfres o astudiaethau ar Salm 23. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu dealwch 0203 901 7895 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Mawrth – 26<sup>ain</sup>

- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] i ymuno.)

Sul – 31<sup>ain</sup>

- **Ysgol Sul ar-lein**  
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**  
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)] i ymuno.)

## Cwrs y Beibl (ar ZOOM)

Cwrs 8 sesiwn wythnosol yw Cwrs y Beibl, yn gyfuniad o fideos byr, trafodaeth grwpiau bach, myfyrio a darlleniadau dyddiol. Bydd y cwrs yn cychwyn **nos Fawrth, Ionawr 19fed** am 7.30 yr hwyr – croeso i bawb ymuno. Os hoffech ymuno, gofynnwn i chi gofrestru eich diddordeb er mwyn i ni sicrhau eich bod yn derbyn copi o'r llyfryn bach sy'n cyd-fynd â'r cwrs. Bydd grŵp trafod Saesneg ar gael hefyd. Dyma'r ddolen i gofrestru os ydych am wneud hynny. Croeso i chi annog eraill i ymuno hefyd:

[https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfKOiklo5lrRB4zwwgpt1OVcs6wDm32uz5UWITs7Ala-GIVTww/viewform?usp=send\\_form](https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfKOiklo5lrRB4zwwgpt1OVcs6wDm32uz5UWITs7Ala-GIVTww/viewform?usp=send_form)

## I'w osod yn fuan – Tŷ Capel, Saron

Dwy lofft, gwres canolog a lle parcio. Cysyllter â Helen Jones am fwy o fanylion (01745 550327 / 07867 984373).